Cyllid & Tollau EM

Adnewyddu eich credydau treth – Yn y ffordd gywir

Defnyddiwch y Nodiadau hyn i'ch helpu

Adnewyddwch nawr –
peidiwch â mentro gadael pethau tan 31 Gorffennaf

Os ydych yn methu'r dyddiad cau:
- bydd eich taliadau'n dod i ben
- bydd yn rhaid i chi ad-dalu arian.

Y llynedd, daeth taliadau dros 400,000 o bobl i ben am na wnaethant adnewyddu ar amser.

Nodiadau TC603RD – i'w defnyddio o 6 Ebrill 2012

Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth. Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

Rydym yn cynnig nifer o wasanaethau i bobl ag anableddau, gan gynnwys canllawiau mewn Braille, ar ffurf sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras hefyd. Ffoniwch unrhyw un o'n Llinellau Cymorth os oes angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Cofiwch

Mae credydau treth yn hyblyg ac yn newid pan fydd eich bywyd yn newid.

Anelwn at ddelio â'ch adnewyddiad **o fewn 8 wythnos** o dderbyn eich datganiad. Pan fyddwn wedi delio ag ef, rhown wybod i chi. Byddwn yn parhau i'ch talu yn ystod yr adeg hon, felly nid oes yn rhaid i chi gysylltu â ni oni bai bod gennych newidiadau i'n hysbysu amdanynt.

Rhai newidiadau pwysig i Gredyd Treth Gwaith o fis Ebrill 2012

O fis Ebrill 2012 bydd yn rhaid i gyplau â phlant weithio o leiaf 24 awr yr wythnos rhyngddynt, gydag un partner yn gweithio o leiaf 16 awr. Felly os ydych yn gwpl lle mae dim ond un ohonoch yn gweithio, bydd yn rhaid i'r person hwnnw weithio am o leiaf 24 awr yr wythnos.

Os yw eich oriau gweithio ar y cyd yn llai na 24 awr yr wythnos, mae'n dal yn bosib i chi dderbyn Credyd Treth Gwaith os oes un o'r canlynol yn gymwys:

- mae un ohonoch yn 60 oed neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- mae un ohonoch yn anabl ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- mae un ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, ac ni all y person arall weithio am ei fod/bod yn analluog, yn glaf preswyl yn yr ysbyty neu yn y carchar (ar ddedfryd o gaethiwed, neu wedi'i gadw/chadw yn y ddalfa wrth aros i sefyll ei brawf/phrawf, neu i gael ei ddedfrydu/dedfrydu).

Mae angen i chi gymryd tri cham i adnewyddu eich credydau treth

Mae'n bosib y gofynnwn i chi ddarparu tystiolaeth i ategu eich cais.

Cam A – Cadarnhau

Cadarnhewch fod yr amgylchiadau personol a nodwyd gennych ar ddechrau eich cyfnod dyfarnu yn gywir yn eich Adolygiad Blynyddol.

Os nad ydynt yn gywir, rhowch wybod i ni ar unwaith.

Bydd tudalennau 2 a 3 o gymorth i chi

Cam B – Cadarnhau

Cadarnhewch fod y newidiadau y gwnaethoch roi gwybod i ni amdanynt yn ystod eich cyfnod dyfarnu yn gywir yn eich Adolygiad Blynyddol.

Os nad ydynt yn gywir, rhowch wybod i ni ar unwaith.

Ar gyfer newidiadau i:	Tudalen
Eich teulu	4
Anabledd	5
Y man lle rydych yn byw	5
Gwaith neu fudd-daliadau	6
Gofal plant	6

Cam C – Cwblhau

Cwblhewch eich Datganiad Blynyddol gan ddefnyddio'r manylion cywir ar gyfer y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llofnodi'r Datganiad cyn ei anfon atom.

Er mwyn cwblhau:	Tudalen
Budd-daliadau neu incwm	8
Incwm arall	10
Amgylchiadau personol	10
Datganiad	10
Taflenni Gwaith	11

Beth i'w wirio yng Ngham A yn eich Adolygiad Blynyddol

Mae eich Adolygiad Blynyddol yn dangos eich amgylchiadau personol ar ddechrau eich cyfnod dyfarnu. Os gwnaethoch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, rydym yn eu dangos yng Ngham B.

Chi (a'ch partner, os oes gennych un)
Mae'r adran hon yn dangos p'un a wnaethoch hawlio fel unigolyn neu fel cwpl. Os gwnaethoch hawlio fel cwpl, dangoswn y ddau enw. Mae'r ddau ohonoch yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth yn gywir. Am ragor o wybodaeth, gweler tudalen 3.

Y man lle rydych yn byw

Dyma'r wlad rydych yn byw ynddi y rhan fwyaf o'r amser. Os oedd eich prif gartref yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw) nodwn eich bod yn byw yn y Deyrnas Unedig. Nid yw o wahaniaeth os ydych yn mynd ar wyliau weithiau i wledydd tramor am lai nag wyth wythnos.

Eich gwaith neu fudd-daliadau
Mae'r adran hon yn dangos y wlad rydych yn gweithio ynddi y rhan fwyaf o'r amser a sawl awr yr wythnos rydych yn gweithio fel arfer. Nid oes gwahaniaeth p'un a byddwch yn mynd i wledydd eraill i weithio o bryd i'w gilydd. Efallai y bydd hefyd yn dangos a ydych wedi cael y canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Credyd Pensiwn, neu
- elfen 50+ credydau treth.



Step A

Check your personal circumstances at the start of your award period were correct and complete

At the start of your award period, 06/04/2011

MR A N OTHER
Date of birth: 11/06/1965
Lived in the United Kingdom
Usually worked in the United Kingdom
Total hours worked in a week: 33
Qualified for the disability element of Working Tax Credit

MRS A N OTHER
Date of birth: 14/10/1975
Lived in the United Kingdom
Usually worked in the United Kingdom
Total hours worked in a week: 10

Your qualifying children and young people

CHILD ONE
Date of birth: 15/02/1991

CHILD TWO
Date of birth: 05/07/1995
Received the Highest Rate Care Component of Disability Living Allowance

Your childcare costs – childcare providers must be registered or approved, see the Notes

You had no qualifying childcare costs

Example

I gael mwy o wybodaeth am gostau gofal plant neu er mwyn gweld a yw eich darparwr gofal plant yn gymwys, gweler ein taflen WTC5 *Credyd Treth Gwaith - Help gyda chostau gofal plant*. I gael copi ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/wtc5-cymraeg.pdf** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.

Anabledd
Os oes gennych anabledd, nodwn hynny yn yr adran hon. Am ragor o wybodaeth, gweler tudalennau 3 a 5.

Plant a phobl ifanc cymwys
Os gwnaethoch hawlio ar gyfer unrhyw blant, mae'r adran hon yn dangos y wybodaeth y gwnaethoch ei rhoi i ni. Gallwch hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn hyd at 31 Awst ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed. Gallwch hefyd hawlio ar gyfer person ifanc rhwng 16 ac 20 oed os yw'n cael addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch, neu'n dilyn cwrs hyfforddi cymeradwy.

Yr elfen anabledd plant
Os oes gan eich plentyn anabledd, nodwn hynny yn yr adran hon.
Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 3 a 5.

Costau gofal plant
Mae'r adran hon yn dangos p'un a ydych yn gymwys i gael cymorth gyda chostau gofal plant oherwydd eich bod yn gweithio. Cewch gymorth gyda chostau gofal plant os ydych yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy. Os ydych yn gwpl, mae'n rhaid i'r ddau ohonoch weithio 16 awr yr wythnos, neu mae'n rhaid i un ohonoch weithio 16 awr yr wythnos os yw'r llall yn analluog ac yn derbyn budd-dal anabledd, yn yr ysbyty neu yn y carchar.
Gallwch gael cymorth ar gyfer plentyn hyd at:

- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 15 oed, neu
- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed os oes gan y plentyn anabledd.

Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 3 a 7.

Chi (a'ch partner, os oes gennych un)

Rydym yn eich trin fel cwpl os ydych:
- yn briod, neu
- mewn partneriaeth sifil

oni bai eich bod wedi gwahanu'n gyfreithlon neu fod eich gwahaniad yn debygol o fod yn un parhaol.

Rydym yn eich trin fel cwpl os ydych yn cyd-fyw â rhywun arall fel petaech:
- yn briod, neu
- mewn partneriaeth sifil.

Rydym yn dal i'ch trin fel petaech yn gwpl os ydych yn byw ar wahân dros dro - er enghraifft, mae un ohonoch yn gweithio oddi cartref.

Os oes gennych anabledd

Os oes gennych anabledd efallai y gallwch gael elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith. Gweler tudalen 5 am yr amodau cymhwyso.

Plant a phobl ifanc cymwys

Gall hyn gynnwys plant hyd at eu pen-blwydd yn 16 oed, a phobl ifanc 16 oed neu'n hŷn ond o dan 20 oed.

Addysg amser llawn

Mae person ifanc mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch os gwnaeth ddechrau ei gwrs presennol, os cafodd ei dderbyn arno neu os yw wedi cofrestru ar ei gyfer cyn ei ben-blwydd yn 19 oed:
- yn yr ysgol neu'r coleg (nid y brifysgol)
- yn astudio pynciau hyd at ac yn cynnwys Safon Uwch, lefel 3 NVQ, Scottish Highers neu Advanced Highers (nid tystysgrif genedlaethol uwch na gradd), a
- mewn gwersi am fwy na 12 awr yr wythnos ar gyfartaledd yn ystod y tymor.

Ystyrir bod plentyn mewn addysg amser llawn o hyd os bydd:
- adref yn astudio (yn paratoi ar gyfer arholiadau)
- yn absennol o'r ysgol neu'r coleg oherwydd salwch ond bydd yn dychwelyd pan fydd yn well
- newydd orffen cwrs ac wedi cofrestru i ddechrau cwrs arall y tymor nesaf.

Ni all yr addysg gael ei darparu gan gyflogwr neu swydd a ddelir gan berson ifanc.

Os nad ydych yn siŵr p'un a yw'r person ifanc mewn addysg amser llawn a'i peidio, ffoniwch ein Llinell Gymorth.

Cyrsiau hyfforddi cymeradwy

Yng Nghymru - Prentisiaethau Modern Sylfaenol, Adeiladu Sgiliau neu Adeiladu Sgiliau+.

Yn Lloegr - Foundation Learning Programmes, Access to Apprenticeships neu Programme Led Apprenticeships.

Yn yr Alban - Get Ready for Work neu Skillseekers.

Yng Ngogledd Iwerddon - Jobskills neu Training for Success: Professional and Technical Training neu Programme Led Apprenticeships (Apprenticeships NI).

Nid yw swydd a ddarperir gan gyflogwr fel rhan o gytundeb swydd yn cyfrif fel bod yn gymeradwy. Er enghraifft, caiff Prentisiaethau Modern yn yr Alban eu darparu bob tro fel rhan o gytundeb swydd felly nid ydynt yn cyfrif fel hyfforddiant cymeradwy.

Yr elfen anabledd plant

Os oes gan eich plentyn anabledd efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant ychwanegol:
- os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu'r Gyfradd Uchaf o Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer eich plentyn, neu
- os yw'r plentyn wedi'i gofrestru'n ddall neu os yw ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr o bobl ddall yn ystod yr 28 wythnos cyn i chi hawlio credydau treth.

Costau gofal plant

Gallwch gael help tuag at eich costau gofal plant os yw eich darparwr gofal plant wedi'i gofrestru neu'i gymeradwyo. Os nad ydych yn siŵr, holwch y darparwr.

Efallai y gallwch gael help hyd yn oed os ydych yn defnyddio mathau eraill o ofal plant, fel clwb ar ôl ysgol.

Mae cyrff cofrestru a chymeradwyo yn cynnwys:
- Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol yng Nghymru
- Ofsted yn Lloegr
- Y Comisiwn dros Reoleiddio Gofal yn yr Alban
- Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.
Ffôn **0300 200 1900**
Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.
Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**
Ffôn testun **0845 300 3909**.

A yw eich amgylchiadau personol yn gywir ac yn gyflawn yng Ngham A?
Ydyn - Ewch i Gam B ar dudalen 4
Nac ydyn - Ffoniwch ein Llinell Gymorth.

Beth i'w gadarnhau yng Ngham B yn eich Adolygiad Blynyddol

Mae credydau treth yn hyblyg ac yn newid pan fydd eich bywyd yn newid. Mae eich Adolygiad Blynyddol yn dangos y newidiadau rydych eisoes wedi rhoi gwybod i ni amdanynt. Os oes rhywbeth arall wedi newid ond nid ydych wedi rhoi gwybod i ni amdano, gwnewch hynny nawr. Mae tudalennau 4 i 7 yn dangos y newidiadau y mae angen i chi roi gwybod i ni amdanynt - gallent effeithio ar faint o arian a gewch.

A ydych chi wedi gwneud mwy nag un cais?

Os gwnaethoch fwy nag un cais am gredydau treth yn ystod y flwyddyn, cewch becyn adnewyddu ar gyfer pob cais. Er enghraifft, os gwnaethoch un cais fel unigolyn ac yna un arall fel rhan o gwpl, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi ymateb i bob pecyn y byddwn yn ei anfon atoch.

Newidiadau yn eich teulu

Rhaid i chi ddweud wrthym o fewn mis
Os gwnaethoch hawlio:

- **fel unigolyn** ond rydych nawr yn briod neu mewn partneriaeth sifil, neu'n byw gyda rhywun fel petaech yn briod neu fel petaech mewn partneriaeth sifil
- **ar y cyd gyda'ch priod neu bartner sifil** ond rydych wedi gwahanu'n gyfreithlon neu mae'r gwahaniad yn debygol o fod yn un parhaol
- **ar y cyd gyda'ch partner** ond nad ydych bellach yn byw fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- **ar y cyd** ond mae'ch partner wedi marw.

Os bydd plentyn yn gadael y teulu i fyw gyda rhywun arall. Mae hyn yn cynnwys plentyn:

- sy'n cael ei roi mewn gofal neu sy'n cael ei faethu gan deulu arall
- sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu
- a geir yn euog gan lys a'i ddedfrydu i'r carchar neu gyfleuster cadw am fwy na phedwar mis.

Os bydd plentyn neu berson ifanc yn marw.

Os bydd enw plentyn neu berson ifanc yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr o bobl ddall.

Os bydd plentyn neu berson ifanc yn dechrau hawlio un o'r canlynol ei hun:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu
- Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith.

Os bydd person ifanc:

- yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy cyn ei ben-blwydd yn 20 oed
- yn dechrau cael addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch, a ddarperir gan ei gyflogwr neu drwy ei swydd
- yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, y Weinyddiaeth Amddiffyn, neu sefydliad tebyg o fewn yr UE
- yn dechrau cael hyfforddiant a ddarperir o dan ei gontract cyflogaeth
- yn dechrau gwaith â thâl am 24 awr neu fwy yr wythnos ac nid ydynt mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy
- o dan 20 oed, yn dechrau cwrs addysg uwch. Er enghraifft, cwrs sy'n arwain at radd, diploma addysg uwch, diploma cenedlaethol uwch, tystysgrif genedlaethol uwch gan Edexcel neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban, neu gymhwyster addysgu.

Os bydd person ifanc yn priodi, mewn partneriaeth sifil, neu'n dechrau byw gyda phartner fel petai yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Os na roddwch wybod i ni am y newidiadau hyn, mae'n bosib y byddwch yn cronni gordaliad y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb hefyd.

Hefyd rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os:

- byddwch chi neu'ch partner yn cael babi
- bydd plentyn neu berson ifanc yn ymuno â'ch teulu.

Os na roddwch wybod i ni, efallai na chewch yr holl arian y mae hawl gennych ei gael.

CAM B – Newidiadau i'ch amgylchiadau personol

Newidiadau mewn anabledd

Os oes gennych anabledd

Os ydych yn cael budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd, efallai y bydd gennych hawl i gael elfen anabledd neu anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith. Er mwyn cael yr elfen anabledd mae'n rhaid i chi fodloni pob un o'r tri amod cymhwyso.

Amod 1 - rydych fel arfer yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos.

Amod 2 - mae gennych anabledd sy'n eich rhoi o dan anfantais o ran cael swydd.

Amod 3 - rydych yn derbyn neu wedi derbyn budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd.

Os oes gennych anabledd difrifol

Galwch dderbyn yr elfen anabledd difrifol y credyd Treth Gwaith os ydych yn derbyn:

- y Gyfradd Uchaf o Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl neu
- Cyfradd Uchaf y Lwfans Gweini

neu mae wedi ei atal am eich bod yn yr ysbyty.

Os ydych yn rhan o gwpl, nid oes angen i chi weithio i gael elfen anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith, cyhyd â bod eich partner yn gweithio.

Yr elfen anabledd plant

Efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant ychwanegol:

- os yw Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu'r Gyfradd Uchaf o Elfen Ofal DLA yn daladwy ar gyfer eich plentyn, oni bai ei fod yn yr ysbyty, neu
- os yw'r plentyn wedi'i gofrestru'n ddall neu os yw ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr o bobl ddall yn ystod yr 28 wythnos cyn i chi hawlio credydau treth.

Dylech ddweud wrthym os nad ydych chi (neu'ch partner, os oes gennych un) neu'ch plentyn yn bodloni'r amodau cymhwyso i gael elfen anabledd neu anabledd difrifol y Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Treth Plant mwyach.

Os na roddwch wybod i ni am y newidiadau hyn, gallech gronni gordaliad y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb hefyd.

I gael mwy o wybodaeth am:

- anableddau sy'n eich rhoi o dan anfantais o ran cael swydd
- budd-daliadau cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd

ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits/tc956.pdf** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth a gofynnwch am TC956.

Newidiadau i'r man lle rydych yn byw

Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib os ydych yn newid eich cyfeiriad cartref.

Rhaid i chi ddweud wrthym am y canlynol o fewn mis, os ydych chi (neu'ch partner, os oes gennych un):

- yn gadael y DU yn barhaol
- yn mynd dramor am gyfnod dros dro sy'n para mwy nag wyth wythnos (neu fwy na 12 wythnos os byddwch yn mynd dramor am eich bod yn sâl, neu am fod aelod o'ch teulu yn sâl neu wedi marw)
- yn colli eich hawl i breswylio yn y DU.

Os na fyddwch yn ein hysbysu am y newidiadau hyn, mae'n bosib y byddwch yn cronni gordaliad y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb hefyd.

Mae'n bosib y byddwch yn dal i fod yn gymwys ar gyfer derbyn credydau treth os nad oeddech yn byw yn y DU ond roeddech:

- yn ddinesydd gwlad arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, a'ch bod yn gweithio yn y DU, neu
- yn un o Weision y Goron sy'n gweithio dramor neu'n bartner i'r person hwnnw, neu
- yn wladolyn
  - gwlad yn yr AEE, gan gynnwys y DU, neu
  - Y Swistir

sy'n byw yn yr AEE neu'r Swistir ac yn cael budd-dal Analluogrwydd, Pensiwn y Wladwriaeth, budd-dal Gwraig Weddw/budd-dal Profedigaeth, budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau neu Lwfans Anabledd Difrifol.

Am ragor o wybodaeth gweler ein taflenni gwybodaeth *Tax credits - coming to the United Kingdom (WTC/FS5)* a *Tax credits - leaving the United Kingdom (WTC/FS6).* I gael copi ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits/forms-and-leaflets/leaflets.htm** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.

Newidiadau i'ch gwaith neu fudd-daliadau

Rhaid i chi ddweud wrthym am y canlynol o fewn mis:

- os ydych yn cael Credyd Treth Gwaith a bod eich cyfnod mamolaeth yn para am fwy na 39 wythnos
- os ydych yn rhoi'r gorau i weithio
- os yw'ch oriau gwaith arferol yn newid fel eich bod yn gweithio
  - llai nag 16 awr yr wythnos, neu
  - llai na 24 awr yr wythnos (gallwch adio eich oriau gweithio ynghyd i wneud 24 awr, gweler y tu mewn i'r clawr blaen ar gyfer manylion y newidiadau o fis Ebrill 2012), neu
  - llai na 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau â phlant, eich oriau gwaith ar y cyd sy'n cyfrif tuag at y 30 awr - cyhyd â bod un ohonoch yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos)
- os ydych yn cael elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith ac yn dechrau gweithio llai nag 16 awr yr wythnos
- os buoch yn rhan o unrhyw gamau gweithredu diwydiannol am fwy na 10 diwrnod yn olynol
- os ydych yn cael eich diswyddo
- os nad ydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl
  - seibiant tadolaeth/tadolaeth ychwanegol
  - seibiant mabwysiadu/mabwysiadu ychwanegol
  - salwch neu yn analluog i weithio
  - cyfnodau o streic
  - cael eich atal o'r gwaith yn ystod ymchwiliad
- os ydych yn dechrau neu'n stopio cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu Gredyd Pensiwn.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â budd-daliadau cymwys ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits/tc956.pdf**

Os na roddwch wybod i ni am y newidiadau hyn, mae'n bosib y byddwch yn cronni gordaliad y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu cosb hefyd.

Dylech ddweud wrthym am y newidiadau canlynol cyn gynted â phosibl:

- os yw eich oriau gwaith wythnosol yn codi i
  - 16 awr neu fwy yr wythnos, neu
  - 24 awr neu fwy yr wythnos (gallwch adio eich oriau gweithio ynghyd i wneud 24 awr, gweler y tu mewn i'r clawr blaen ar gyfer manylion y newidiadau o fis Ebrill 2012), neu
  - 30 awr neu fwy yr wythnos (ar gyfer cyplau â phlant, eich oriau gwaith ar y cyd sy'n cyfrif tuag at y 30 awr - cyhyd â bod un ohonoch yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos)
- os nad ydych yn bodloni'r amodau anabledd mwyach, gweler tudalen 5
- os yw eich cyflogwr yn newid.

Newidiadau i'ch trefniadau gofal plant

Ar gyfer cyplau sy'n derbyn elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith rhaid i'r ddau weithio 16 awr neu fwy yr wythnos, neu rhaid i un ohonoch weithio 16 awr neu fwy yr wythnos a'r llall yn analluog ac yn derbyn budd-dal anabledd, neu yn glaf preswyl mewn ysbyty, neu yn y carchar.

Newidiadau y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt

Os ydych wedi bod yn hawlio cymorth i helpu gyda chostau gofal plant, rhaid i chi ddweud wrthym am y newidiadau canlynol **o fewn mis**:

- nid ydych yn bodloni'r un o'r amodau uchod mwyach
- nid yw eich darparwr gofal plant wedi'i gofrestru neu'i gymeradwyo mwyach
- rydych yn dechrau defnyddio darparwr gofal plant nad yw wedi'i gofrestru na'i gymeradwyo at ddibenion credydau treth
- rydych yn dechrau defnyddio perthynas i ofalu am eich plentyn, yng nghartref y plentyn
- mae eich plentyn yn cyrraedd 15 oed (neu 16 oed os yw'n anabl), gweler yr adran 'Nodyn".

Nodyn: Dim ond hyd at y dyddiadau canlynol y gallwch hawlio'r elfen gofal plant ar gyfer plentyn:

- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 15 oed, neu
- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed os
  - yw'r plentyn wedi'i gofrestru'n ddall neu os yw ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr o bobl ddall yn ystod yr 28 wythnos cyn i chi hawlio credydau treth, neu
  - ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwnnw, neu mae wedi ei atal am ei fod yn yr ysbyty.

A yw eich costau gofal plant wedi newid?
Darllenwch yr wybodaeth ar dudalen 7 a defnyddiwch yr enghreifftiau i'ch helpu i gyfrifo eich costau gofal plant.

Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.
Ffôn **0300 200 1900**
Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.
Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**
Ffôn testun **0845 300 3909**.

Newidiadau i'ch costau gofal plant

Rhaid i chi ddweud wrthym am y canlynol o fewn mis:

- os yw eich costau gofal plant yn dod i ben
- os yw eich costau wythnosol ar gyfartaledd yn gostwng i sero, neu'n gostwng gan £10 neu fwy gan eich bod yn talu llai o gostau, rydych yn derbyn talebau gofal plant oddi wrth eich cyflogwr, neu o gynllun gan y llywodraeth
- os ydych fel arfer yn talu costau gofal plant **wythnosol sefydlog** a bod eich costau **gwirioneddol** yn lleihau gan £10 yr wythnos neu fwy. Rhaid i'r newid hwn ddigwydd bob wythnos am **o leiaf bedair wythnos yn olynol**
- os ydych yn talu **symiau gwahanol** (naill ai bob wythnos neu bob mis) ar adegau gwahanol (er enghraifft, rydych yn talu mwy yn ystod gwyliau'r ysgol nag yn ystod y tymor) ac mae eich costau wythnosol **cyfartalog** yn gostwng gan £10 neu fwy.

Rhowch wybod i ni hefyd os yw eich costau wythnosol cyfartalog yn cynyddu gan £10 yr wythnos neu fwy.

Am ragor o wybodaeth am gostau gofal plant neu er mwyn gweld a yw eich darparwr gofal plant yn gymwys, gweler ein taflen *Help with the costs of childcare (WTC5).* I gael copi ewch i **www.hmrc.gov.uk/leaflets/wtc5.pdf** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.

Y swm wythnosol cyfartalog rydych yn ei dalu i'ch darparwr gofal plant

Dim ond y costau rydych chi eich hunan yn eu talu y dylech eu cynnwys.

Peidiwch â chynnwys:

- unrhyw swm a delir gan eich cyflogwr, mewn arian neu dalebau, tuag at eich costau gofal plant (gan gynnwys talebau drwy aberthu cyflog)
- unrhyw swm a delir gan awdurdod lleol neu awdurdod addysg lleol tuag at gost gofal plant ar gyfer plant tair neu bedair blwydd oed
- unrhyw swm a delir gan un o gynlluniau'r llywodraeth, er enghraifft, Cronfa Gofal Plant 'Upfront', i'ch helpu i ddechrau gweithio.

Os ydych newydd drefnu darparwr gofal plant ond heb ddechrau talu eto

Gofynnwch i'ch darparwr faint y mae'n bwriadu ei godi arnoch a gweithiwch allan eich costau wythnosol cyfartalog dros y 52 wythnos nesaf.

Costau gofal plant - talu symiau gwahanol ar adegau gwahanol *(er enghraifft, talu mwy yn ystod gwyliau'r ysgol nag yn ystod y tymor)*

Enghraifft 1

Mae Aled fel arfer yn talu £60 yr wythnos am ofal plant cofrestredig yn ystod y tymor. Yn ystod gwyliau'r ysgol mae'n talu £100 yr wythnos ar gyfer 10 wythnos.

Cyfanswm ei gostau am 52 wythnos yw (£100 x 10) + (£60 x 39) = £3,340.

Felly cyfartaledd ei gostau wythnosol yw £3,340 wedi'i rannu â 52 = £64.23 (talgrynnwch i fyny i £65).

Sylwer: dylech ond gynnwys costau ar gyfer wythnosau rydych yn talu amdanynt mewn gwirionedd.

Costau gofal plant - am gyfnod byr yn unig

Os ydych yn defnyddio gofal plant am gyfnod penodedig byr yn unig, er enghraifft yn ystod gwyliau'r ysgol, efallai y gallwch hawlio a derbyn cymorth gyda'ch costau gofal plant am y cyfnod hwnnw. Pan ddywedwn 'penodedig' rydym yn golygu eich bod yn gwybod pryd y bydd y cyfnod hwnnw o ofal plant yn cychwyn ac yn gorffen. I hawlio cymorth gyda'ch costau gofal plant am gyfnod penodedig byr, ffoniwch ein llinell gymorth cyn gynted ag y mae'r gofal plant yn cychwyn, neu ddim mwy na saith diwrnod o flaen llaw.

Bydd angen i chi ddweud wrthym:

- dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen y gofal plant
- gwir gost y gofal plant
- manylion y sawl sy'n darparu'r gofal plant.

Costau gofal plant a delir yn fisol

Enghraifft 2

Mae Catrin yn talu am ofal plant cofrestredig bob mis ond mae'r swm y mae'n ei dalu yn amrywio o fis i fis.

Ym mis Ebrill ni thalodd ddim byd a'i thaliadau misol eraill yn y 12 mis diwethaf oedd:

£200 y mis ar gyfer mis Chwefror, mis Hydref a mis Rhagfyr	£600
£400 y mis ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst	£800
£150 y mis ar gyfer y chwe mis arall	£900
	£2,300

Felly cyfartaledd costau wythnosol Catrin yw £2,300 ÷ 52 = £45.

A yw eich amgylchiadau newydd yn gywir ac yn gyflawn ar Gam B?

Ydy – Ewch i Gam C ar dudalen 8

Rhannau 1 a 2 - Manylion eich budd-daliadau neu incwm

Rhaid i chi lenwi Rhan 1 neu Ran 2.

Os yw eich Adolygiad Blynyddol yn gofyn am fanylion incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2010-11 a 2011-12, rhaid i chi lenwi Rhan 1 **a** Rhan 2.

A oes gennych fanylion eich incwm?

Os nad oes gennych eich ffigurau incwm gwirioneddol, gallwch roi amcangyfrif i ni. Rhaid i chi roi eich ffigurau incwm cywir i ni cyn gynted â phosibl. Os oes angen help arnoch i gyfrifo eich incwm, cysylltwch â ni.

Budd-daliadau penodol

Peidiwch â rhoi 'X' yma os ydych, yn ystod unrhyw gyfnod a gwmpesir gan y Datganiad hwn, wedi dechrau gweithio ac wedi derbyn taliad sy'n rhedeg ymlaen o un o'r budd-daliadau hyn.

Manylion eich incwm

Os ydych yn gyflogai, peidiwch â gadael y blwch hwn yn wag. Defnyddiwch y Daflen Waith ar dudalen 11 i weithio allan eich enillion ar gyfer y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012. Gallwch weld faint rydych wedi'i ennill ar eich P45 neu P60 neu eich slip cyflog terfynol. Peidiwch ag anfon y rhain atom.

Enghraifft - 'Cyfanswm cyflog hyd yma' ar y P45

Enghraifft - 'Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn' ar y P60



Os ydych wedi cael Tâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol, ac ar gyfer didyniadau eraill, gweler y Daflen Waith ar dudalen 11.

ENGHRAIFFT

RHAN 1 BUDD-DALIADAU PENODOL

1.1 **Os oeddech yn cael unrhyw rai o'r canlynol am gyfnod llawn y dyfarniad a ddangosir ar dudalen 1 rhowch 'X' yn y blychau priodol.** Gweler y Nodiadau

- ☐ Cymhorthdal Incwm
- ☐ Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, gweler tudalen 8 o'r Nodiadau
- ☐ Credyd Pensiwn

Os ydych wedi rhoi 'X' mewn unrhyw flwch ac rydych yn parhau i dderbyn y budd-daliadau yma **peidiwch** â chwblhau RHAN 2, ond ewch yn syth at RHAN 3

RHAN 1 BUDD-DALIADAU PENODOL

1.1 **Os oeddech yn cael unrhyw rai o'r canlynol am gyfnod llawn y dyfarniad a ddangosir ar dudalen 1 rhowch 'X' yn y blychau priodol.** Gweler y Nodiadau

- ☐ Cymhorthdal Incwm
- ☐ Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- ☐ Credyd Pensiwn

Os ydych wedi rhoi 'X' mewn unrhyw flwch ac rydych yn parhau i dderbyn y budd-daliadau yma **peidiwch** â chwblhau RHAN 2, ond ewch yn syth at RHAN 3.

Mae angen i chi nodi eich incwm am y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012** isod.
Ceir taflenni gwaith yn y Nodiadau a fydd yn eich helpu i gyfrifo'ch incwm.
Os nad ydych yn gwybod union swm unrhyw ran o'r manylion incwm y gofynnwn amdanynt isod, defnyddiwch amcangyfrif – gweler y Nodiadau. Os defnyddiwch amcangyfrif rhowch 'X' yn y blwch 'Amcangyfrif'.

RHAN 2 BUDD-DALIADAU NAWDD CYMDEITHASOL TRETHADWY
Talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.

2.1 **Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd** Peidiwch â chynnwys unrhyw gredydau treth, Budd-dal Plant na Chredyd Pensiwn. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

RHAN 2 BUDD-DALIADAU NAWDD CYMDEITHASOL TRETHADWY
Talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.

2.1 **Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd** Peidiwch â chynnwys unrhyw gredydau treth, Budd-dal Plant na Chredyd Pensiwn. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

RHAN 2 MANYLION INCWM
Talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.

2.2 **Enillion fel cyflogai o bob swydd** Nodwch gyfanswm eich enillion am y flwyddyn, cyn i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a didyniadau eraill gael eu didynnu. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

2.3 **Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy, a thaliadau mewn nwyddau o bob swydd** Os cawsoch unrhyw un o'r rhain gan eich cyflogwr mae angen i ni wybod beth yw cyfanswm 'ei gwerth cyfatebol mewn arian parod'. Nodwch y ffigurau o ffurflen P11D neu ffurflen P9D, a roddwyd i chi gan eich cyflogwr. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

2.4 **Incwm o hunangyflogaeth** Os gwnaethoch golled, nodwch '0.00'. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

RHAN 2 MANYLION INCWM
Talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.

2.2 **Enillion fel cyflogai o bob swydd** Nodwch gyfanswm eich enillion am y flwyddyn, cyn i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol a didyniadau eraill gael eu didynnu. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

2.3 **Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy, a thaliadau mewn nwyddau o bob swydd** Os cawsoch unrhyw un o'r rhain gan eich cyflogwr mae angen i ni wybod beth yw cyfanswm 'ei gwerth cyfatebol mewn arian parod'. Nodwch y ffigurau o ffurflen P11D neu ffurflen P9D, a roddwyd i chi gan eich cyflogwr. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

2.3 **Incwm o hunangyflogaeth** Os gwnaethoch golled, nodwch '0.00'. Gweler y Nodiadau

£ [ ][ ][ ][ ][ ][ ] • 0 0 Amcangyfrif ☐

Buddiannau gan eich cyflogwr

Fel arfer bydd eich cyflogwr yn rhoi'r manylion sydd eu hangen arnoch ar ffurflen P11D neu P9D.

Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd

Os ydych wedi cael unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir isod, adiwch hwy at ei gilydd a rhowch y cyfanswm yn y blwch:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd a delir ar ôl yr 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd. (**Peidiwch** â chynnwys Budd-dal Analluogrwydd os gwnaethoch ei hawlio cyn 1995 ac rydych wedi ei gael byth ers hynny)
- Cymhorthdal Incwm trethadwy (mae hyn ond yn berthnasol os oeddech yn gwpl, a bod yr unigolyn a oedd yn cael Cymhorthdal Incwm ar streic).

Os nad ydych yn siŵr pa fudd-daliadau a gawsoch, neu faint, cysylltwch â'ch swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu'r Ganolfan Byd Gwaith..

Incwm o hunangyflogaeth

Os ydych yn hunangyflogedig, rhaid i chi ddweud wrthym am eich elw am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012. Defnyddiwch y nodiadau ar dudalen 9 i'ch helpu i weithio allan eich elw neu i ganfod pa ffigurau sydd angen i chi eu cymryd o'ch Ffurflen Dreth.

Am help gydag incwm arall, amgylchiadau personol a'r Datganiad, ewch i dudalen 10.

Os gwnaethoch daliadau Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn neu golledion masnachu

Os gwnaethoch:

- unrhyw daliadau Rhodd Cymorth
- cyfraniadau at gynllun pensiwn sydd wedi'i gofrestru â Chyllid a Thollau EM
- colledion masnachu

ewch i **www.hmrc.gov.uk/forms/tc825.pdf** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth a gofynnwch am TC825.

Peidiwch â chynnwys cyfraniadau pensiwn i bensiynau galwedigaethol a dalwyd drwy'r cyflogwr.

Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.
Ffôn **0300 200 1900**
Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.
Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**
Ffôn testun **0845 300 3909**.
I gael gwybod mwy ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredithelpline**

Os ydych yn hunangyflogedig

Os nad ydych wedi llenwi eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2011-12

Mae angen i chi amcangyfrif eich elw. Rhowch wybod i ni beth yw swm gwirioneddol eich elw erbyn 31 Ionawr neu fe wnawn ddefnyddio eich amcangyfrif.

Os nad oes gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, bydd rhaid i chi geisio dyfalu gorau gallwch chi. Os oedd eich elw yn weddol debyg bob wythnos neu bob mis, lluoswch hwn â:

- 52 os cewch eich talu bob wythnos
- 12 os cewch eich talu bob mis
- 13 os cewch eich talu bob pedair wythnos.

Os na chawsoch yr un faint bob tro y cawsoch eich talu, bydd yn rhaid i chi adio'r holl arian a gawsoch yn ystod y flwyddyn.

Os ydych wedi llenwi eich Ffurflen Dreth ar gyfer 2011-12

Nodwch gyfanswm eich elw ar gyfer y flwyddyn ym mlwch 2.4. Copïwch y swm hwn o un o'r canlynol:

- Ffurflen Dreth Fer, blwch 3.10
- Tudalennau hunangyflogaeth (byr), blwch 27
- Tudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 72, neu
- Tudalennau partneriaeth (byr neu lawn), blwch 14.

Os oes gennych fwy nag un busnes

Adiwch ynghyd:

- yr elw a addaswyd o bob un o'ch tudalennau Hunangyflogaeth
- eich cyfran chi o elw'r bartneriaeth a addaswyd o bob un o'ch tudalennau Partneriaeth (byr neu lawn).

Os oedd gan eich busnes incwm neu elw arall

Cofiwch gynnwys y rhain yn y swm ym mlwch 2.4. – er enghraifft, incwm rhent. Cofiwch gynnwys unrhyw symiau o:

- Tudalennau hunangyflogaeth (byr), blwch 29
- Tudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 74
- Tudalennau partneriaeth (byr), blwch 17 neu 26
- Tudalennau partneriaeth (llawn), blwch 17, 66, 69, 72 neu 73.

Os ydych yn cyfartalu am eich bod yn ffermwr, masnach-arddwr neu grëwr gweithiau llenyddol neu artistig

Ni allwch gyfartalu yn eich cais am gredydau treth. Felly mae angen addasu ffigur cyfanswm eich elw i ddileu'r cyfartalu. Dyma sut rydych yn gwneud hynny.

Byddwch wedi nodi ffigur yn:

- Tudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 71, neu
- Tudalennau partneriaeth (byr neu lawn), blwch 10.

Os bydd y ffigur yn y naill flwch neu'r llall yn cynyddu eich elw, didynnwch y swm hwn o gyfanswm eich elw.

Os bydd y ffigur yn y naill flwch neu'r llall yn lleihau eich elw, adiwch y swm hwn at gyfanswm eich elw.

Os oeddech yn masnachu y tu allan i'r DU yn 2011-12

Dylech nodi eich elw mewn punnoedd Prydeinig, **nid** yn yr arian tramor. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os oes angen help arnoch gyda hyn.

Rhannau 2, 3 a 4 – Eich incwm arall, amgylchiadau personol a'r Datganiad

Incwm arall

Os oes gennych unrhyw incwm arall, er enghraifft, llog ar gynilion neu Bensiwn y Wladwriaeth, defnyddiwch y Daflen Waith ar dudalen 13. Peidiwch â llenwi'r blwch hwn os yw eich incwm arall yn:

- llai na £300
- taliad cynhaliaeth
- grant neu fenthyciad myfyriwr.

Amgylchiadau personol

Yng Ngham A o'ch ffurflen Adolygiad Blynyddol gofynnwn i chi gadarnhau bod eich amgylchiadau personol ar ddechrau eich cyfnod dyfarnu yn gywir, ac yng Ngham B, fod unrhyw newidiadau wedi'u rhestru'n gywir.

A oes angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau personol ar gyfer eich cyfnod dyfarnu?

Nac oes Rhowch 'X' ym mlwch 3.1 os yw'r wybodaeth yn gywir ac nad oes gennych unrhyw newidiadau o gwbl i'w nodi.

Oes Rhowch 'X' ym mlwch 3.2 a chysylltwch â ni i roi'r wybodaeth sydd ar goll neu roi gwybod am y newid yn eich amgylchiadau.

Os ysgrifennwch atom i ddweud wrthym am newid yn eich amgylchiadau, ysgrifennwch 'Newid mewn amgylchiadau' ar eich gohebiaeth. Ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Canolfan Gyswllt Gymraeg, Tŷ Moelwyn, Tros y Bont, Porthmadog, Gwynedd LL49 9AB neu'r cyfeiriad a ddangosir ar eich Adolygiad Blynyddol.

A ydych wedi llenwi Rhan 3?

Sicrhewch eich bod wedi llenwi Rhan 3 sy'n ymwneud â'ch amgylchiadau personol. Ni allwn adnewyddu eich credydau treth os nad ydych wedi gwneud hynny.



I lenwi'r RHAN hon defnyddiwch y daflen waith 'Incwm arall' ar dudalen 13 o'r Nodiadau.
Dyfarniadau ar y cyd – os ydych yn rhan o gwpl, nodwch 'Incwm arall' ym mlwch 2.5.

RHAN 2 MANYLION INCWM parhad
Talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.

INCWM ARALL - yn cynnwys llog ar gynilion neu Bensiwn y Wladwriaeth. Gweler fodd bynnag y nodiadau a defnyddiwch y Daflen Waith I weithio allan eich 'Incwm arall'.
Peidiwch â chynnwys incwm oddi wrth dudalen 2 gyferbyn.

2.5 **Cyfanswm incwm arall**
Nodwch y ffigur o'r daflen waith 'Incwm arall' yn y Nodiadau
£ . 0 0 Amcangyfrif

Os ydych wedi amcangyfrif unrhyw ran o'ch incwm a ddangosir ym mlychau 2.1 i 2.5,
darparwch **ffigurau gwirioneddol erbyn** **fan bellaf** neu byddwn yn eich trin fel wedi
datgan bod swm eich incwm gwirioneddol fel yr amcangyfrifwyd ac yn defnyddio'r amcangyfrif i bennu eich dyfarniad terfynol.

RHAN 3 AMGYLCHIADAU PERSONOL AR GYFER

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r RHAN hon.

Mae angen i chi sicrhau bod eich amgylchiadau personol yn gywir ac yn gyflawn am y cyfnod cyfan a ddangosir uchod. Gwiriwch yr wybodaeth a ddangosir ar y ffurflen Adolygiad Blynyddol ag yna ateb y cwestiwn sydd gyferbyn.

Bydd y Nodiadau yn dweud wrthych ba newidiadau y mae'n **rhaid** i chi roi gwybod amdanynt. Os byddwn yn darganfod y ddiweddarach nad ydych wedi rhoi gwybod amdanynt, mae'n bosibl y byddwn yn codi cosb arnoch.

Mae'n rhaid i chi ateb naill ai 'Oes' neu 'Nac oes' i'r cwestiwn hwn.

3.1 A oes angen i chi roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau personol?
Rhowch 'X' yn y blwch yma.
Nac oes Yna ewch i'r Datganiad yn RHAN 4

3.2 Rhowch 'X' yn y blwch yma a chysylltwch â ni nawr gyda'r manylion. Yna ewch i'r
Oes Datganiad yn RHAN 4

RHAN 4 DATGANIAD
Mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad hwn.
Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anwir, gallech fod yn agored i gosbau ariannol a/neu gellid eich erlyn.
Rwyf yn datgan
- bod yr wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- fy mod wedi rhoi gwybod am unrhyw newidiadau y mae'n rhaid i mi ddweud wrthych amdanynt.

Rwyf yn deall
- y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon i benderfynu ar swm terfynol fy nyfarniad credydau treth ar gyfer 2011-2012
- mai'r ffurflen hon yw fy nghais am unrhyw gredydau treth sy'n ddyledus i mi ar gyfer 2012-2013 oni bai fy mod wedi gofyn neu gytuno i dynnu'n ôl o gredydau treth neu gorffennwyd yr hawl yn 2011-12
- os mai cais ar y cyd yw hwn, fy mod yn rhannu cyfrifoldeb â'r person arall a enwir ar y ffurflen, am yr **holl** wybodaeth a roddwyd ac y gellir adennill unrhyw gredydau treth a ordelir oddi wrth y ddau ohonom neu'r naill neu'r llall ohonom.

Llofnod

Dyddiad D D M M B B B B

RHAN 4 DATGANIAD
Mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad hwn.
Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anwir, gallech fod yn agored i gosbau ariannol a/neu gellid eich erlyn.
Rwyf yn datgan
- bod yr wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- fy mod wedi rhoi gwybod am unrhyw newidiadau y mae'n rhaid i mi ddweud wrthych amdanynt.

Rwyf yn deall
- y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon i benderfynu ar swm terfynol fy nyfarniad credydau treth ar gyfer 2011-2012
- mai'r ffurflen hon yw fy nghais am unrhyw gredydau treth sy'n ddyledus i mi ar gyfer 2012-2013 oni bai fy mod wedi gofyn neu gytuno i dynnu'n ôl o gredydau treth neu gorffennwyd yr hawl yn 2011-12
- os mai cais ar y cyd yw hwn, fy mod yn rhannu cyfrifoldeb â'r person arall a enwir ar y ffurflen, am yr **holl** wybodaeth a roddwyd ac y gellir adennill unrhyw gredydau treth a ordelir oddi wrth y ddau ohonom neu'r naill neu'r llall ohonom.

Llofnod

Dyddiad D D M M B B B B

TC 603 D 12 Tudalen 3

Datganiad

Cyn i chi lofnodi'r Datganiad yn Rhan 4 sicrhewch fod pob cofnod ar eich ffurflen Datganiad Blynyddol yn gywir.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi'r wybodaeth gywir i ni. Rydym yn cyfrifo faint i'w dalu o'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym am eich incwm a'ch amgylchiadau teuluol.

Os na ddywedwch wrthym am newid yn eich amgylchiadau personol neu os rhowch fanylion anghywir am eich incwm, ni fyddwch fel arfer yn gallu ei newid unwaith i ni benderfynu beth yw eich dyfarniad terfynol.

Os rhowch wybodaeth anghywir i ni mae'n bosib y cewch ormod o arian ac y bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb ac efallai y cewch eich erlyn.

Os ydych wedi hawlio credydau treth fel rhan o gwpl, mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r ddau ohonoch ad-dalu unrhyw ordaliad credydau treth. Os byddwch chi neu'ch partner yn rhoi gwybodaeth anghywir i ni, efallai y bydd yn rhaid i'r ddau ohonoch dalu cosb ac efallai y caiff y ddau ohonoch eich erlyn.

Os ydych wedi eich penodi i weithredu ar ran cwpl, unwaith yn unig y mae angen i chi lofnodi'r Datganiad.

Taflen Waith – Enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

Ffoniwch ein Llinell Gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.

Nodwch eich enillion yn gyntaf

	Chi	Eich partner
Os buoch yn gweithio y tu allan i'r DU yn 2011-12 dylech nodi eich enillion mewn punnoedd Prydeinig, nid yn yr arian tramor. Cyfanswm eich holl waith cyflogedig, gan gynnwys unrhyw gildyrnau neu arian rhodd a Thâl Salwch Statudol. Nodwch y swm **gros** (cyn i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gael eu didynnu).	£	£
Tâl gan eich cyflogwr am i'ch swydd newid neu ddod i ben. Ni chaiff y taliad diswyddo cyntaf o £30,000 ei drethu, felly peidiwch â'i gynnwys yma. Nodwch unrhyw swm a gawsoch dros hynny.	£	£
Enillion trethadwy o opsiynau gwarant a gawsoch oherwydd eich swydd, er enghraifft, cyfranddaliadau neu fondiau cwmni.	£	£
Tâl streic gan eich undeb llafur.	£	£
Tâl am waith a wnaethoch yn y carchar neu ar remand.	£	£
Cyfanswm eich enillion	£	£

Nawr, nodwch eich didyniadau

Treuliau gwaith rydych wedi'u talu ac nad yw eich cyflogwr wedi'u had-dalu i chi. Mae'n rhaid i'r treuliau fod yn gyfan gwbl, yn unswydd ac yn angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni eich dyletswyddau.	£	£
Taliadau trethadwy a wnaed gennych nad ydynt wedi'u had-dalu i chi. Er enghraifft ffioedd i gyrff proffesiynol, ffioedd asiantaethau, yswiriant indemnedd.	£	£
Treuliau cyfradd unffurf y cytunwyd arnynt gan eich cyflogwr a ninnau er mwyn cynnal a chadw neu adnewyddu offer neu ddillad arbennig sydd eu hangen arnoch i wneud eich gwaith.	£	£
Taliadau Rhodd Cymorth a chyfraniadau pensiwn personol a dalwyd gennych i gynllun cofrestredig. Dylech gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd a thaliadau i bensiynau Cyfranddeiliaid. Nodwch y swm gros. **Peidiwch â chynnwys** cyfraniadau a dalwyd gennych drwy eich cyflogwr.	£	£
Tâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol. Os oedd eich taliadau yn fwy na £100 yr wythnos, nodwch £100 yn y blwch ar gyfer bob wythnos. Er enghraifft, os cawsoch hwy am 30 o wythnosau, nodwch £3,000. Os oedd eich taliadau yn llai na £100 yr wythnos, nodwch y swm a dderbyniwyd gennych. Er enghraifft, os cawsoch £80 am 30 o wythnosau, nodwch £2,400. Peidiwch â chynnwys Lwfans Mamolaeth.	£	£
Cyfanswm y didyniadau	£	£
Tynnwch gyfanswm eich didyniadau o gyfanswm eich enillion. *Nodwch y swm hwn ym mlwch 2.2.* ***Peidiwch â chynnwys*** *y ceiniogau.*	£	£

Peidiwch ag anfon y Daflen Waith hon atom

CAM C – Cwblhau eich Datganiad Blynyddol

Taflen Waith – Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy a buddiannau am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

Ffoniwch ein Llinell Gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.

Copïwch y wybodaeth o'ch ffurflen P9D neu P11D rydych yn ei chael gan eich cyflogwr. Os ydych wedi cael mwy nag un cyflogwr, adiwch y ffigurau hyn ynghyd.

	Chi	Eich partner
Nwyddau ac asedau y mae eich cyflogwr wedi'u rhoi i chi (er enghraifft, rhoddion o fwyd, diod, tanwydd, sigarét neu ddillad) – a ddangosir ar P11D adran A neu P9D adran A(2) yn y trydydd blwch neu'r pedwerydd blwch.	£	£
Taliadau a wnaeth eich cyflogwr ar eich rhan (er enghraifft, rhent neu filiau cyfleustodau a dalwyd) – a ddangosir ar P11D adran B yn y blwch cyntaf rhif 15, neu P9D adran A(2) yn y blwch cyntaf, yr ail flwch a'r pumed blwch.	£	£
Talebau arian parod a thalebau nad ydynt yn arian parod a thocynnau credyd (er enghraifft, cerdyn credyd cwmni) – a ddangosir ar P11D adran C, neu P9D adran B (adiwch bob un o'r blychau ynghyd). Peidiwch â chynnwys cyfwerth mewn arian unrhyw dalebau gofal plant os cânt eu defnyddio i dalu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy.	£	£
Lwfans milltiroedd. Cofiwch gynnwys taliadau am ddefnyddio eich car eich hun – nodwch y swm trethadwy ar P11D adran E. Dylech hefyd gynnwys unrhyw gostau rhedeg y mae eich cyflogwr wedi talu amdanynt – a ddangosir ar P11D adran E neu a gynhwysir yn adran N. Os na thelir eich costau milltiroedd gan eich cyflogwr, neu os bydd ond yn talu ychydig o'r costau, ffoniwch ein Llinell Gymorth.	£	£
Car cwmni – a ddangosir ar P11D ym mlwch 9 o adran F.	£	£
Buddiant tanwydd car – a ddangosir ar P11D ym mlwch 10 o adran F.	£	£
Taliadau treuliau a wnaed i chi neu ar eich rhan – a ddangosir ar P11D adrannau J, M neu N neu P9D adran A(1). Mae'n bosibl y gallech leihau'r swm hwn drwy hawlio didyniad o dreuliau a ganiateir at rai dibenion Treth Incwm. Ffoniwch ein Llinell Gymorth.	£	£
	£	£

Cyfanswm P9D neu P11D. *Nodwch y swm hwn ym mlwch 2.3.* ***Peidiwch â chynnwys*** *y ceiniogau.*

Os yw eich cyflogwr wedi cynnwys buddiannau ar eich P60 neu P45, bydd angen i chi ddidynnu'r hyn sy'n gyfwerth mewn arian o gyfanswm eich P60 a P45 cyn cynnwys y ffigur hwn ym mlwch 2.3.

Peidiwch ag anfon y Daflen Waith hon atom

Taflen Waith – Incwm arall am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

Ffoniwch ein Llinell Gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.

	Chi	Eich partner
Incwm o gynilion a buddsoddiadau, gan gynnwys difidendau. Nodwch y swm **gros** (cyn i dreth gael ei didynnu). Peidiwch â chynnwys buddsoddiadau sydd wedi'u heithrio rhag treth megis ISAs. Dylech gynnwys swm llawn unrhyw 'enillion digwyddiad trethadwy' o bolisi yswiriant bywyd.	£	£
Pensiynau'r Wladwriaeth (gan gynnwys Pensiwn Gwraig Weddw, Lwfans Mam Weddw, Lwfans Rhiant Gweddw a Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol). Peidiwch â chynnwys y bonws Nadolig na'r taliad tanwydd gaeaf.	£	£
Pensiynau eraill y DU rydych yn eu cael (nid pensiynau rhyfel). Os yw eich pensiwn yn cynnwys swm ychwanegol ar gyfer salwch neu anaf sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ffoniwch ein Llinell Gymorth.	£	£
Incwm eiddo. **Peidiwch â chynnwys** incwm o'r cynllun 'rhentu ystafell'. Peidiwch â chynnwys unrhyw beth rydych eisoes wedi'i gynnwys ym mlwch 2.4. Os gwnaeth eich eiddo sydd wedi'i rentu golled, ffoniwch ein Llinell Gymorth a gofynnwch am Daflen Waith TC825 i'ch helpu.	£	£
Incwm o ymddiriedolaethau, setliadau ac ystadau. Cewch fanylion ar dystysgrif R185, y dylai'r ymddiriedolwyr neu'r gweinyddwyr fod wedi'i rhoi i chi. Nodwch y swm **gros** (cyn i dreth gael ei didynnu).	£	£
Incwm tramor, er enghraifft, incwm o fuddsoddiadau ac eiddo tramor. Dylech gynnwys y swm llawn mewn punnoedd Prydeinig p'un a gafodd ei anfon i'r DU ai peidio. Nodwch y swm gros mewn punnoedd Prydeinig. Os ydych yn cael pensiwn tramor dylech gynnwys 90% ohono yma. Didynnwch unrhyw gost bancio neu gomisiwn a dalwyd gennych wrth drosi arian tramor.	£	£
Incwm tybiannol. Mae hyn yn cynnwys pethau fel difidendau stoc, neu incwm y gallech fod wedi'i dderbyn ond gwnaethoch ddewis peidio â'i dderbyn. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn.	£	£
Cyfanswm	£	£
Adiwch ynghyd y cyfansymiau ar eich cyfer chi a'ch partner	£	
Tynnwch £300 o'r ffigur. Os bydd hyn yn rhoi ffigur minws, nodwch 0.	£	
Os cawsoch chi neu'ch partner Grant Oedolyn Dibynnol am fod yn fyfyriwr neu incwm trethadwy amrywiol na chafodd ei gynnwys uchod, nodwch ef yma. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn.	£	
Cyfanswm incwm arall. *Nodwch y swm hwn ym mlwch 2.5.* ***Peidiwch â chynnwys*** *y ceiniogau.*	£	

Peidiwch ag anfon y Daflen Waith hon atom

Rhagor o wybodaeth

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn dal gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys asesu a chasglu treth a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, ac efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hyn.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bobl eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt hwy. Os gwnawn hynny, fe'i gwnawn yn unol â'r gyfraith yn unig er mwyn:

- cadarnhau cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus.

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch chi â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddarperir gennych chi, a chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau dramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Cyllid a Thollau EM oni fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac edrychwch am *Data Protection Act* yn y cyfleuster *Chwilio*.

Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae *Eich Siarter* yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn y gallwn ni ei ddisgwyl gennych chi.

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/eichsiarter.pdf**

Canllawiau yn unig yw'r nodiadau hyn ac maent yn adlewyrchu'r sefyllfa pan y'u hysgrifennwyd. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Tîm Gwybodaeth i Gwsmeriaid
Mawrth 2012 © Hawlfraint y Goron 2012

CThEM 03/12 L23494

Cyllid & Thollau EM